

Fferm Solar Alleston

TACHWEDD/RHAGFYR 2023

TUDALEN 1

Annwyl Breswlydd,

Mae Statkraft yn datblygu cynlluniau ar gyfer fferm solar newydd rhwng Llandyfái a Phenfro. Bydd Fferm Solar Alleston tua 100ha (247 erw) ac mae'n agos at reilffordd Doc Penfro-Caerfyrddin.

Credwn fod gan y safle botensial ar gyfer capasiti o hyd at 49MW, sy'n cyfateb i anghenion tua 15,000 o gartrefi bob blwyddyn.*

Fel rhan o'n hymgysylltiad cynnar, byddwn yn cynnal digwyddiadau cymunedol yn Llandyfái a Doc Penfro ar 29 a 30 Tachwedd 2023. Gwahoddwn chi i ddod draw i ddysgu rhagor, i sgwrsio ag aelodau o dîm y prosiect ac i rannu eich barn am ein cynlluniau newydd.

Bydd adborth o'r ymgysylltu cynnar, ynghyd â chanlyniadau amrywiaeth o ymchwiliadau ac arolygon safle, yn ein helpu i fireinio ein cynigion, y byddwn yn eu rhannu â chi yn ystod yr ymgynghoriad statudol y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn chwilio am adborth ar welliannau bioamrywiaeth ar gyfer y safle a syniadau ar sut y gallwn ni wneud yn fawr o'r buddion i'r gymuned leol.

Edrychwn ymlaen at glywed eich syniadau cychwynnol a gweithio gyda chi wrth i'r prosiect ddatblygu.

Cofion gorau,

Gui Zandomeneghi and Consuela Beauchamp-Davies
Prif Reolwr Prosiect and Datblygwr Prosiect

* Yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog cartrefi o 3,325kWh y flwyddyn (BEIS, Rhagfyr 2022)

Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu eich barn ar ein cynlluniau newydd drwy:



Cwblhau'r ffurflen ar y dudalen we:
alleston-solar.cymru



Yn galw:
0800 772 0668



E-bostio:
UKProjects@statkraft.com

Rydym yn croesawu adborth erbyn 15 Rhagfyr 2023. Byddwn yn ymateb i adborth ar ôl yr amser hwn ond efallai na fydd yn cael ei gynnwys yn ein Hadroddiad Ymgynghoriad.

DYSGWCH RAGOR:

DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL



**Dydd Mercher 29 Tachwedd
o 2pm i 7pm**
yn Neuadd Jiwbilî Llandyfái,
SA71 5NR

**Dydd Iau 30 Tachwedd
o 10am i 2pm**
yn Neuadd Gymunedol Pennar,
Doc Penfro, SA72 6SH

Os oes angen cymorth
arnoch i ddod, mae croeso
i chi gysylltu â ni.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Bydd yr holl wybodaeth
a arddangosir yn yr
arddangosfeydd ar gael
ar wefan y prosiect o 29
Tachwedd 2023 ymlaen.



Y cynigion



PANELI SOLAR: Caiff y rhain eu hangori yn y ddaear. Bydd paneli uchafswm o 3m o'r ddaear. Bydd y fframwaith sy'n eu cynnal wedi ei wneud o alwminiwm neu ddur. Byddant yn cael eu cysylltu â'i gilydd a'r is-orsaf trwy geblau tanddaearol.



CYSYLLTIAD GRID: Mae cysylltiad grid ar y safle yn golygu dim ceblau ychwanegol y tu allan i ffin y safle.



CYLCH OES Y PROSIECT: Mae gan Fferm Solar Alleston oes ddisgwyliedig o 40 mlynedd. Ar ddiwedd y prosiect, bydd y fferm solar yn cael ei datgomisïynu a gellir dychwelyd y tir i ddefnydd amaethyddol.



ADEILADU: Os rhoddir caniatâd, bydd adeiladu'r datblygiad yn cymryd tua 6 i 9 mis.

Crynodeb o'r prosiect



49 MW

Hyd at 49MW o gapasiti amcangyfrifedig



15,000

Amcangyfrifir bod tua 15,000 o gartrefi yn cael eu pweru*



CRONFA BUDD CYMUNEDOL

Ar draws oes y prosiect



CYSYLLTIAD GRID


Cysylltiad grid lleol ar y safle

* Yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog cartrefi o 3,325kWh y flwyddyn (BEIS, Rhagfyr 2022)

Pam y safle hwn

- Lefelau arbelydru solar uchel i gynyddu'r trydan effeithlon a gynhyrchir.
- Cysylltiad grid ar y safle.
- Perygl llifogydd isel.

Cynllun lleoliad y safle



ALLESTON SOLAR FARM:
SITE LOCATION PLAN LEGEND

 Site Boundary



Ystyriaeth amgylcheddol

Mae ymchwiliadau safle cynnar wedi dechrau ac mae Statkraft wedi cyflwyno cais cwmpasu cyn bo hir i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) i sicrhau bod yr astudiaethau amgylcheddol priodol yn cael eu cynnal wrth i'r cynigion gael eu datblygu.

Bydd yr astudiaethau hyn hefyd yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth a gwelliannau i'w cyflawni yn rhan o'r datblygiad.

Mae copi o'r cais cwmpasu ar gael i'w weld ar alleston-solar.cymru.

Helpu'r Cacwn i ffynnu

Mae gan brosiectau solar y potensial i ddarparu amgylchedd delfrydol ar gyfer cynefinoedd gwenyn oherwydd gallant gynnal amrywiaeth o ficrogynefinoedd deniadol i annog amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Dyna pam yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r arbenigwyr yn yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i ddatblygu ffermydd solar sy'n gwella, yn adfer ac yn creu cynefinoedd cacwn, sy'n gyfyngedig iawn ar y safle ar hyn o bryd oherwydd amaethyddiaeth ddwys.

Mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn yn rhoi adborth ar gynefin, rhywogaethau planhigion a thechnegau paratoi tir sy'n galluogi cacwn i ffynnu.



Business Member 2023/24



Pam ynni'r haul

Mae ynni'r haul yn dechnoleg hanfodol i helpu i oresgyn ein heriau diogelwch ynni a hinsawdd. Pe byddai Fferm Solar Alleston yn cael caniatâd, byddai'n cyfrannu i gyflawni amcanion polisi'r DU, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro, yn arallgyfeirio'r amrywiaeth ynni, ac yn hwyluso'r newid i ynni carbon isel, wrth leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil.

Mae cost solar wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac bellach hon yw un o'r ffyrdd rhataf o gynhyrchu trydan. *Roedd 2022 yn flwyddyn a dorrodd record ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y DU; gall pŵer solar gynhyrchu cymaint â 30% o drydan y DU ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn.**

Gall ffermydd solar hefyd fod yn hafanau bywyd gwyllt, trwy ymgorffori dolydd blodau gwyllt, adfer cloddiau, a phlannu brodorol. Mae canlyniadau cyntaf arolwg cenedlaethol a gynhaliwyd gyda Phrifysgol Caerhirfryn ** yn amlygu manteision bioamrywiaeth gwerthfawr ffermydd solar ar draws y DU.

*www.carbonbrief.org **www.solarenergyuk.org

Ynglŷn â Statkraft

Mae Statkraft yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy blaenllaw yn rhyngwladol a chynhyrchydd ynni adnewyddadwy mwyaf Ewrop. Ar ôl inni brynu Solarcentury yn 2020 rydym wedi cryfhau ein sgiliau a'n profiad i gyflawni prosiectau solar o safon i adnewyddu'r ffordd y mae'r byd yn cael ei bweru.

Yn gweithredu yn y DU er 2006 ac â swyddfeydd yng Nghaerdydd ac Aberystwyth, mae gennym 40 o brosiectau ar waith neu wrthi'n cael eu datblygu ledled y DU, gan gynnwys Fferm Wynt Alltwalis yn Sir Gaerfyrddin a Gwaith Ynni Dŵr Rheidol ger Aberystwyth. Rydym hefyd wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer hyb ynni gwyrdd i gynhyrchu hydrogen gwyrdd yn Nhrecŵn, gogledd Sir Benfro.

Rydym wedi ymrwmo'n llwyr i ymgynghori â'r gymuned, a bydd adborth yn cael ei gymryd i ystyriaeth lle bo modd trwy ddyluniad y prosiect. Edrychwn ymlaen at rannu ein cynlluniau â chi.

www.statkraft.co.uk

Y broses gynllunio

Gan y bydd gan Fferm Solar Alleston gapasiti cynhyrchu gosodedig o fwy na 10MW o drydan fe'i diffinnir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Mae hyn yn golygu y bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ac yn cael ei ystyried gan Arolygwr, a'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymreig.

AMSERLEN DDANGOSOL

Hydref/Gaeaf 2023

Ymgysylltu cynnar ymgynghoriad cymunedol ar y cais a'r cyflwyniad cwmpasu.

Gaeaf 2023

Ymchwiliadau ac astudiaethau safle i lywio'r cynigion terfynol.

Gwanwyn 2024

Ymgynghoriad cymunedol statudol ar gais.

Haf 2024

Cyflwyno Cais Cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW).

Gaeaf 2024/25

Argymhelliad a ragwelir gan PEDW a phenderfyniad gan Weinidogion Cymru.

Cymuned

Rydym wedi ymrwmo i gydweithio'n agos â'r gymuned leol i ddod â gwerth hirdymor a chyflawni prosiect y gellir ei ystyried yn ased lleol.

Rydym eisiau clywed eich barn i'n helpu i lunio'r cynlluniau ac archwilio opsiynau i gynyddu'r cyfleoedd a'r buddion. Ewch i'n digwyddiadau cymunedol i siarad ag aelod o'r tîm prosiectau, dysgu rhagor a rhoi gwybod i ni beth yw eich barn chi.

Cronfa Fuddion i'r Gymuned

Bydd cronfa fuddion i'r gymuned yn cael ei gyflwyno'n barhaus drwy gydol oes y prosiect.

Gellid defnyddio hyn er budd prosiectau a mentrau lleol gan gynnwys addysg, effeithlonrwydd ynni, gwelliannau amgylcheddol, a chyfleusterau cymunedol gwell.

Rydym am glywed eich barn ar beth arall y gallem ei wneud i gefnogi'r ardal leol. Os oes gennych syniad sut y gallwn ni gefnogi eich cymuned leol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Mae arnom eisiau clywed gennych chi!

Cwrdd ag Arweinwyr y Prosiect



Cefnogir Gui Zandomeneghi a Consuela Beauchamp-Davies gan dîm o arbenigwyr a all dderbyn eich adborth ac ateb cwestiynau.

Ewch i'n gwedudalen i ddysgu rhagor:

alleston-solar.cymru

Cysylltu â ni:

Cardiff

Brunel House,
2 Fitzalan Road,
Cardiff, CF24 0EB

London

19th Floor
22 Bishopsgate
London EC2N 4BQ

Glasgow

1 West Regent Street
Glasgow G2 1RW



Gwedudalen: **alleston-solar.cymru**



E-bostio:
UKProjects@statkraft.com



Phone the
project hotline:
0800 772 0668



Dychwelwch y cerdyn ateb
rhadbost a ddarparwyd.

Gallwch ddarganfod mwy am
ein prosiectau a'r ffordd yr ydym
yn gweithio yn
www.statkraft.co.uk